

## Eich Cais, Ein Proses Recriwtio ac Amodau a Manteision Cyflogaeth

### Gwneud cais am swydd

Mae Polisi Cyfle Cyfartal a chod ymarfer Recriwtio a Dethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn golygu ein bod eisiau sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg.

### Gwneud Cais

Y ffurflen gais yw'r unig wybodaeth a ddefnyddir wrth benderfynu pwy sy'n mynd ymlaen i gyfnod nesaf y broses recriwtio. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd y cyfle i gwblhau eich ffurflen more llawn a chryno ag y bo modd, yn seiliedig ar yr wybodaeth rydym wedi ei rhoi i chi am y swydd.

Mae'n anodd weithiau penderfynu o ffurflen gais pa mor dda y mae ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf a adnabuwyd ar gyfer perfformiad llwyddiannus yn y swydd. I wneud hon yn broses mwy goddrychol ac i'n cynorthwyo ni gyda llunio rhestr fer, buasai'n ddefnyddiol pe gallech gadw mewn cof yr awgrymiadau canlynol wrth gwblhau'r ffurflen gais: -

- mae'r ffurflen gais ar gael yn [www.torfaen.gov.uk](http://www.torfaen.gov.uk) i chi naill ai ei lawrlwytho a'i hebostio i [recruitment@torfaen.gov.uk](mailto:recruitment@torfaen.gov.uk) neu ei hargraffu a'i phostio; Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi cael ei dderbyn gennym ni. Awgrymw'n eich bod yn defnyddio opsiwn derbyn a darllen os ydych yn e-bostio'r ffurflen ac yn cysylltu â ni ar frys os nad ydych wedi derbyn hysbysiad o dderbyniad ar ôl gofyn am un;
- mae angen i'ch cais ddangos y sgiliau, diddordebau a'r profiad perthnasol sydd gennych;
- rhoi enghreifftiau o'r gwaith rydych wedi ei wneud ac ysgrifennu mewn modd cadarnhaol (er enghraifft: Roeddwn yn gyfrifol am ... Trefnais ...). Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi eich cyfrifoldebau chi ac nid rhai eich adran, a
- mae pob swydd wag rydym yn ei hysbysebu yn seiliedig ar fanyleb person sy'n disgrifio'r sgiliau, y profiad a'r galluoedd rydym yn chwilio amdanynt. Lle bynnag y bo modd, cysylltwch eich sgiliau a'ch profiadau chi â'r gofynion.

Dylech gofio gysylltu eich cais gyda swydd benodol. Mae pob swydd yn wahanol – dylech ond gyflwyno'r un cais am gyfres o swyddi os yw'n briodol. Peidiwch ag anfon CV gyda'ch ffurflen gais, na gwneud cais gan ddefnyddio CV yn unig.

Cwblhewch eich ffurflen a'i chyflwyno cyn y dyddiad cau i'r **cyfeiriad a fanylir yn yr Hysbyseb Swydd**. Efallai na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried.

Os nad ydych yn clywed gennym o fewn pedair wythnos i'r dyddiad cau, medrwch dybio bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus. Mae gwybodaeth recriwtio ar gael yn Saesneg.

### Llunio Rhestr Fer ac Asesu

Bydd ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion hanfodol y manyleb person fel rheol yn cael eu rhoi ar y rhestr fer i'w cyfweld. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi ar y ffôn neu drwy llythyr os

ydych ar y rhestr fer. At hyn, efallai y bydd y Cyngor yn cynnal profion/ymarferion ysgrifenedig a/neu ganolfannau asesu dan amgylchiadau priodol ac efallai y gofynnir i chi ymgymryd ag ymarferion o'r fath fel rhan o'r broses recriwtio. Cewch eich hysbysu o fformat y broses ddethol pan gysylltir â chi i gadarnhau eich bod ar y rhestr fer.

Yn y cyfweiliad, bydd y Panel yn gofyn cwestiynau gyda'r bwriad o ganiatáu i chi ymhelaethu ar eich cais a dangos sut rydych yn bodloni gofynion y swydd. Mae hwn hefyd yn gyfle i chi ofyn cwestiynau am y swydd, telerau ac amodau, oriau gwaith ac ati.

## Yn Gadarnhaol ynglŷn â Phobl Anabl

Mae'r symbol tic anabledd yn dangos bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymroddedig i gyflogi, hyfforddi a datblygu gyrfa pobl ag anabledd. Dan y cynllun hwn, os oes gennych anabledd ac mae eich cais yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd rydych wedi gwneud cais amdani, ceuwch eich rhoi ar y rhestr fer. Os hoffech i'ch cais gael ei ystyried dan y cynllun hwn, cwblhewch Adran 18 ar y ffurflen gais.

Os ydych angen cymorth i gwblhau'r ffurflen gais, cysylltwch â ni.



## Cynllun Cyfweiliad Gwarantedig ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog

Helpu cyn-filwyr i gyflawni eu potensial y tu allan i'r Lluoedd Arfog

Mae CBST wedi cyflwyno Cynllun Cyfweiliad Gwarantedig ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Mae'r cynllun yn cefnogi'r addewidion yn y Cyfamod Cymunedol.

Gall newid i fywyd sifil fod yn heriol iawn i gyn-filwyr, yn arbennig wrth gael hyd i waith sicr a pharhaol.

Amcanion penodol y cynllun yw:

- cynorthwyo cyn-filwyr i oresgyn rhwystrau wrth gael hyd i waith mewn bywyd sifil
- lleihau'r perygl o broblemau iechyd a lles i gyn-filwyr o ganlyniad i ddiweithdra tymor hir
- unioni'r fantol o ran cyfleoedd gwaith i gyn-filwyr trwy roi cyfle iddyn nhw drosglwyddo'n well i fywyd sifil
- cyd-fynd gyda'r gefnogaeth am waith sy'n cael ei rhoi i'r rhai sy'n gadael y lluoedd arfog gan y Weinyddiaeth Amddiffyn
- elwa o sgiliau trosglwyddadwy a nodweddion cyn-filwyr

Pan fo cyn-filwyr yn gwneud cais am swydd, bydd modd iddyn nhw nodi ar y ffurflen gais eu bod yn gyn-filwyr. Bydd gwarant o gyfweiliad i gyn-filwyr, cyhyd â'u bod nhw:

- yn gwasanaethu ar hyn o bryd yn y lluoedd arfog ac maen nhw o fewn 12 wythnos i'w dyddiad rhyddhau NEU os mai'r lluoedd arfog oedd cyflogwr tymor hir diwethaf y cyn-filwr
- yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd a hysbyseb

Bydd y meini prawf yn cael eu defnyddio mewn ffordd a fydd yn creu rhestr fer hirach o ymgeiswyr nag y byddai yna fel arall. Ni fydd unrhyw ymgeisydd yn cael eu disodli o restr fer o ganlyniad i weithredu'r cynllun hwn.

Nid yw'r cynllun yn gwarantu swydd i gyn-filwyr. Bydd gweithdrefnau dewis yn dal i sicrhau fod yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd yn cael eu penodi, ar sail meini prawf gwrthrychol yn y proffil swydd

## Addasiadau Rhesymol

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i wneud addasiadau rhesymol i rôl swyddi i hwyluso cyflogi ymgeiswyr a gweithwyr ag anabledau.

## **Recriwtio Teg**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod pob cam o'r broses recriwtio yn cael ei gymryd yn deg ac yn gyson.

## **Datganiad Ymroddiad i Gyfle Cyfartal**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymroddedig i gyflawni cydraddoldeb fel cyflogwr ac ym mhob agwedd o'n busnes. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y gymuned rydym yn ei gwasanaethu ac aelodau staff presennol a darpar aelodau yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio ein holl wasanaethau a chyfleoedd. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw un yn cael triniaeth llai ffafriol oherwydd anabledd, hil, iaith, rhyw, lliw, crefydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, sefyllfa gymdeithasol, neu unrhyw resymau amhriodol eraill, gan unrhyw ofynion neu reoliadau na ellir eu cyfiawnhau yn llawn ac yn gyfreithlon.

Os ydych eisiau trafod pam nad oeddech yn llwyddiannus, neu heb eich rhoi ar y rhestr fer, cysylltwch â'r Rheolwr a'ch cyfwelodd a fydd yn medru rhoi adborth llafar i chi.

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, dylech ysgrifennu at y Pennaeth Adnoddau Dynol a Phensiynau, gan roi manylion y swydd y gwnaethoch gais amdani a byddwn yn sicrhau bod y mater yn cael ei archwilio'n briodol. Os canfyddir bod eich cwyn yn ddilys, byddwn yn arolygu, fel y bo'n briodol, ein trefniadau recriwtio.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais. Os nad ydych yn llwyddiannus, peidiwch â digalonni ac ewch ati i wneud cais am swydd wahanol.

## **Prif Amodau Cyflogaeth**

Mae'r swydd hon yn destun yr amodau a nodir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, ac eithrio lle mae cytundebau lleol yn amrywio'r amodau hynny.

### **Cyflogau**

Cyfeiriwch at safle rhyngrwyd y Cyngor ar gyfer gwybodaeth ar gyflogau presennol a strwythur cyflog. Dangosir gradd y swydd rydych wedi gwneud cais amdani ar y swydd-ddisgrifiad sydd ynghlwm.

### **Cyfnod Prawf**

Os ydych yn newydd i Wasanaeth Llywodraeth Leol, neu wedi cael egwyl o gyflogaeth barhaus Llywodraeth Leol, mae eich penodiad yn amodol ar gyfnod prawf boddhaol o chwe mis o leiaf o ddyddiad cychwyn yn eich swydd. Yn ystod eich cyfnod prawf bydd disgwyl i chi brofi eich addasrwydd ar gyfer y swydd; os methwch wneud hynny gallai arwain at ymestyn eich cyfnod prawf neu derfynu eich cyflogaeth oherwydd cyfnod prawf anfodhaol.

### **Absenoldeb**

Mae gan holl weithwyr newydd Llywodraeth Leol yr hawl i absenoldeb blynyddol sy'n gymesur â'r misoedd llawn o wasanaeth a gwblhawyd yn y flwyddyn wyliau. Mae gan weithwyr rhan-amser hawl gyfartal i wyliau blynyddol yn unol â'r nifer o oriau a weithir. Mae gwyliau blynyddol yn dibynnu ar raddfa gyflog a hyd gwasanaeth, fel a ganlyn:

<b>Hawl sylfaenol</b>	<b>Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth parhaus llywodraeth leol</b>	<b>Ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth parhaus llywodraeth leol</b>	<b>Hawl i Wyliau Banc</b>
<b>23</b>	<b>28</b>	<b>31</b>	<b>11</b>
<b>22 (Ile nad yw cau am y Nadolig yn berthnasol)</b>	<b>27 (Ile nad yw cau am y Nadolig yn berthnasol)</b>	<b>30 (Ile nad yw cau am y Nadolig yn berthnasol)</b>	<b>12 (Ile nad yw cau am y Nadolig yn berthnasol)</b>

## Salwch

Mae hawl i gyflog salwch yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth, fel a ganlyn:

<b>Hyd Gwasanaeth</b>	<b>Misoedd o gyflog llawn</b>	<b>Misoedd o hanner cyflog</b>
Yn ystod y flwyddyn 1af o wasanaeth	<b>1</b>	<b>2 (ar ôl 4 mis o wasanaeth)</b>
Yn ystod yr 2il flwyddyn o wasanaeth	<b>2</b>	<b>2</b>
Yn ystod y 3edd blwyddyn o wasanaeth	<b>4</b>	<b>4</b>
Yn ystod y 4ydd a'r 5ed blwyddyn o wasanaeth	<b>5</b>	<b>5</b>
Ar ôl y 5ed blwyddyn o wasanaeth	<b>6</b>	<b>6</b>

## Lwfansau Car

Pan fo'r Cyngor yn gofyn i'r gweithiwr ddefnyddio car preifat ar fusnes swyddogol, bydd ganddynt hawl i ad-daliad milltired.

Lle na fedr gweithiwr ddefnyddio cludiant preifat, gwneir addasiadau rhesymol i alluogi trefniadau teithio amgen.

## Trefniadau Gwaith

Yr wythnos waith arferol yw 37 awr, dydd Llun i ddydd Gwener. Cadarnheir yr oriau gwaith yn y cyfweiliad. Lle mae swyddi'n cael eu hysbysebu ar sail rota, neu pan nad ydynt yn seiliedig ar y 37 awr arferol, bydd gwybodaeth yn y pecyn gwneud cais, neu bydd y manylion yn cael eu cynnwys yn yr hysbyseb.

Trefnir union ddyddiau ac oriau gwaith gan yr adran lle lleolir y swydd, yn dibynnu ar ofynion y gyfarwyddiaeth neu'r uned. Efallai y bydd angen i chi weithio oriau anghymdeithasol a/neu system rota. Ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi swyddfa, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn hyrwyddo oriau gwaith hyblyg. Trafodir manylion pellach y trefniadau ar gyfer y swydd hon os gwahoddir i chi fynychu.

## Manteision i Weithwyr

### Cynllun Pensiwn

Dan y rheoliadau pensiwn, cewch eich cynnwys yn awtomatig mewn cynllun pensiwn. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fydd hwn. Os nad ydych eisiau aros mewn cynllun pensiwn, bydd angen i chi gysylltu â'r CPLIL trwy ebost i [pensions@torfaen.gov.uk](mailto:pensions@torfaen.gov.uk) neu ffonio 01495 766266. I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor yn: [www.torfaen.gov.uk/LocalGovernmentPensionScheme](http://www.torfaen.gov.uk/LocalGovernmentPensionScheme)

## **Llinell Gymorth i Weithwyr**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynnig gwasanaeth cwnsela hunan-gyfeirio, sy'n cynnig help a chymorth cyfrinachol mewn perthynas ag anawsterau sy'n ymwneud â'r gwaith ac anawsterau personol.

## **Undeb Credyd Gateway**

Mae Undebau Credyd yn gyrrff cydweithredol a redir gan ac ar ran eu haelodau, sydd oll yn bobl leol. Mae aelodau sy'n cynilo gyda nhw yn creu cronfa o arian a fenthycir i'r rhai sydd eisiau benthyca. Mae'r llogau ar y benthyciadau yn talu am redeg yr Undeb Credyd. Mae Undebau Credyd yn foesegol ac yn cynnig telerau teg, clir a chyfraddau llog isel i bob aelod. Mae Undebau Credyd yn helpu pobl i reoli eu harian a helpu gyda dyledion a phroblemau ariannol.

## **Talebau Gofal Plant**

Fel cyflogwr rydym yn rhannu eich pryderon ynglŷn â chydbwyso eich bywyd gwaith gyda'r galwadau arnoch fel rhiant. Gyda hyn mewn golwg ac i wella ein polisïau cyflogaeth sy'n gyfeillgar i deuluoedd, rydym yn rhedeg cynllun talebau gofal plant.

Mae'r cynllun yn rhedeg ar sail aberthu cyflog, sy'n golygu eich bod yn cyfnewid rhan o'ch cyflog am dalebau i'w defnyddio ar gyfer gofal plant. Ni fydd angen i chi dalu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol ar werth cyfan y daleb bob mis.

## **Deddf Mewnfudo a Lloches 1999**

### **Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

Fel cyflogwr cyfle cyfartal, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ceisio darparu cyfle cyfartal a mynediad i bawb. Tra bod y Cyngor wedi pennu trefniadau i osgoi gwahaniaethu yn ei brosesau recriwtio, rhaid iddo ar yr un pryd sicrhau bod gan y bobl rydym yn eu cyflogi hawl gyfreithiol i weithio yn y DU.

Dyma pam, cyn gellir cynnig swydd i chi, mae angen i ni weld prawf eich bod yn medru gweithio yn y DU.

I weld os oes gennych yr hawl i weithio yn y DU medrwrch fynd i wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU i gael mwy o wybodaeth. [www.ukba.homeoffice.gov.uk](http://www.ukba.homeoffice.gov.uk) (ffenestr newydd) neu cysylltwch â'r adran AD i gael cyngor pellach.

Os nad oes gennych hawl i weithio yn y DU heb gyfyngiad, bydd yr Adran AD yn medru eich cynghori ar y tebygolrwydd o gael Trwydded Waith ar gyfer y swydd rydych yn dymuno cael eich ystyried ar ei chyfer.

## **Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974** **Triniaeth Cyn-droseddwyr**

### **Cyflwyniad**

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ein nod yw hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb gyda'r gymysgedd iawn o dalentau, sgiliau a photensial ac rydym yn croesawu ceisiadau gan amrywiaeth o ymgeiswyr. Bydd cofnodion troseddol ond yn cael eu cymryd i ystyriaeth i

ddibenion recriwtio pan fyddant yn berthnasol i'r swydd rydych yn gwneud cais amdani. Fel arall, byddwn yn ystyried pobl ar gyfer swyddi ar haeddiant a gallu.

## Manylion Cofnodion Troseddol

Os bydd y swydd rydych yn gwneud cais amdani yn gofyn am archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) bydd angen i chi gwblhau adran 13 y ffurflen gais. Os oes gennych gollfarn boed wedi'i disbyddu neu heb ei disbyddu mae gofyn i chi ddatgan y ffaith honno yn yr adran hon. Fodd bynnag, nodwch bod y DBS yn dileu hen droseddau a mân droseddau o'r tystysgrifau cofnod troseddol. I rai dros 18 oed adeg y drosedd bydd y gollfarn fel oedolyn yn cael ei dileu os bydd 11 mlynedd wedi mynd heibio ers dyddiad y gollfarn a honno oedd yr unig gollfarn ac ni arweiniodd at ddedfryd o garchar. Bydd rhybuddiad fel oedolyn yn cael ei ddileu ar ôl 6 mlynedd ar ôl dyddiad y rhybuddiad. I'r sawl dan 18 oed adeg y drosedd, mae'r un rheolau'n berthnasol ar wahân i'r cyfnod amser, sef 5 ½ o flynyddoedd ar ôl collfarn a 2 flynedd ar gyfer rhybuddiad. Ni fyddai angen datgan unrhyw hen droseddau mân sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

## Collfarnau Troseddol Wedi'i Disbyddu

Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn ceisio helpu pobl sydd wedi eu collfarnu o drosedd ac sydd ers hynny wedi byw ar ochr iawn y gyfraith. Yn gyffredinol, mae person sydd wedi ei gollfarnu o drosedd ac sy'n derbyn dedfryd o ddim mwy na dwy flynedd a hanner yn y carchar, yn elwa o'r Ddeddf os nad ydynt yn cael eu collfarnu eto o fewn cyfnod penodol. Gelwir y cyfnod hwn yn gyfnod adsefydlu.

Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol y gosb, po hiraf y cyfnod adsefydlu. Unwaith y mae cyfnod adsefydlu wedi dod i ben, ac ni fu troseddu pellach, ystyrir bod collfarn yn un 'wedi'i disbyddu'. Unwaith y mae collfarn wedi'i disbyddu nid oes yn rhaid i'r person a gollfarnwyd ddatgelu na chyfaddef ei bodolaeth yn y rhan fwyaf o achosion gan gynnwys, er enghraifft, wrth wneud cais am swydd.

Serch hynny, mae rhai swyddi lle mae'n rhaid datgan holl gollfarnau ar y ffurflen gais.

### Beth yw collfarn 'heb ei disbyddu'?

Os ydych erioed wedi eich collfarnu o drosedd lle mae **dedfryd o fwy na dwy flynedd a hanner** wedi ei rhoi (*beth bynnag oedd y cyfnod a dreuliwyd yn y carchar mewn gwirionedd*) ni all y gollfarn hon fyth ddod yn un 'wedi'i disbyddu'. Mae'n gollfarn 'heb ei disbyddu' ac mae'n rhaid i chi ei datgelu pan ofynnir i chi am eich collfarnau troseddol (*megis wrth wneud cais am swydd*).

### Ai dyma'r unig adeg pan fo collfarn yn un 'heb ei disbyddu'?

Na. Os cawsoch ddedfryd o ddwy flynedd a hanner neu lai, gall collfarn fod yn un heb ei disbyddu o hyd. Mae'n dibynnu ar y cyfnod amser sydd wedi mynd heibio ers dyddiad y gollfarn. Gelwir y cyfnod hwn yn **gyfnod adsefydlu** – ac mae'n amrywio yn ôl y math o ddedfryd a roddwyd.

## Cyfnodau Adsefydlu

Ystyrir y dedfrydau canlynol fel rhai nad ydynt byth 'wedi'i disbyddu' a **rhaid** eu datgan pa bynnag fath o swydd rydych yn gwneud cais amdani:

- ◆ carchar am oes;

- ◆ carchariad, dalfa ieuencid, cyfnod mewn sefydliad troseddwy ifanc, neu hyfforddiant cywirol am gyfnod hirach na 30 mis;
- ◆ cyfnod cadw rhwystrol;
- ◆ cyfnod cadw hyd y mynno Ei Mawrhydi neu am oes dan a.205(2) neu (3) Deddf Gweithdrefnau Troseddol (yr Alban) 1975, neu gyfnod mwy na 30 mis dan a.53 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1993 (troseddwy ifanc wedi eu collfarnu o droseddau difrifol) neu dan Ddeddf 1975 (cadw plant a gollfarnwyd ar ddiad), neu gosb gyfatebol cwrt marsial;
- ◆ caethiwed am oes.

Ystyrir bod rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion ffurfiol 'wedi'i disbyddu' unwaith y rhoddwyd hwy. Fodd bynnag, ar gyfer swyddi sy'n gofyn am ddatgeliad cofnod troseddol, mae gofyn datgelu collfarnau wedi'i disbyddu os nad ydynt yn bodloni meini prawf hen a mân sy'n cael eu tyngu oddi ar y dystysgrif; rhoddir y diffiniad isod:-

I rai dros 18 oed adeg y drosedd bydd y gollfarn fel oedolyn yn cael ei dileu os bydd 11 mlynedd wedi mynd heibio ers dyddiad y gollfarn a honno oedd yr unig gollfarn ac ni arweiniodd at ddefryd o garchar. Bydd rhybuddiad fel oedolyn yn cael ei ddileu ar ôl 6 mlynedd ar ôl dyddiad y rhybuddiad. I'r sawl dan 18 oed adeg y drosedd, mae'r un rheolau'n berthnasol ar wahân i'r cyfnod amser, sef 5 ½ o flynyddoedd ar ôl collfarn a 2 flynedd ar gyfer rhybuddiad.

Ni fydd cael collfarn 'heb ei disbyddu' o reidrwydd yn rhwystro ymgeisydd rhag cael gwaith; bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau a natur y drosedd / troseddau.

Mae'r Rhestr ganlynol yn cynnwys dedfrydau sy'n destun adsefydliad dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwy:

<b>Mathau o ddedfryd a roddir i oedolion 18 oed a throsedd ar y pryd</b>	<b>Nifer o flynyddoedd (o ddyddiad y gollfarn) cyn i gollfarn ddod yn un 'wedi'i disbyddu'</b>
Carchariad neu gaethiwed mewn sefydliad troseddwy ifanc (dalfa ieuencid gynt) rhwng chwe mis a dwy flynedd a hanner	10 mlynedd
Carchariad neu gaethiwed mewn sefydliad troseddwy ifanc (dalfa ieuencid gynt) am chwe mis neu lai	7 mlynedd
Dirwy neu ddedfryd arall ar gyfer yr hwn ni ddarperir cyfnod adsefydlu gwahanol (e.e. iawndal neu orchymyn gwasanaeth cymunedol, neu orchymyn prawf a dderbyniwyd ar neu ar ôl 3ydd Chwefror 1995)	5 mlynedd
Rhyddhad diamod	6 mis

Ac eithrio gyda rhyddhad diamod, caiff y cyfnodau uchod oll eu **haneru** os oedd y person a gollfarnwyd **dan 18 oed** ar y pryd. Os oeddech dan 18 ac wedi derbyn gorchymyn prawf ar neu ar ôl 3 Chwefror 1995 mae'r cyfnod adsefydlu yn ddwy flynedd a hanner neu nes bydd y gorchymyn yn dod i ben – pa bynnag gyfnod yw'r hiraf. Yn y gorffennol, roedd

dedfrydau y gellid ond eu rhoi **i bobl iau**. Mae'r cyfnodau adsefydlu ar gyfer dedfrydau fel hyn fel a ganlyn:

<b>Math o Ddedfryd a roddwyd i Bobl Ifanc dan 18 oed ar y pryd</b>	<b>Nifer o flynyddoedd (o ddyddiad y gollfarn) cyn daw Collfarn yn un 'wedi'i disbyddu'</b>
Borstal	7 mlynedd
Canolfan Gadw	3 blynedd
Gorchymyn i gael eu dal mewn Cartref Remand neu Orchymyn Ysgol Warchod.	Blwyddyn ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben

Mae rhai dedfrydau fel hyn â **chyfnodau adsefydlu amrywiol**:

<b>Math o Ddedfryd a roddwyd i Bobl Ifanc dan 18 oed ar y pryd</b>	<b>Nifer o flynyddoedd (o ddyddiad y gollfarn) cyn daw Collfarn yn un 'wedi'i disbyddu'</b>
Gorchymyn prawf a dderbyniwyd cyn 3ydd Chwefror 1995, rhyddhad diamod neu rwydo	Blwyddyn neu nes daw'r gorchymyn i ben (pa bynnag gyfnod yw'r hiraf)
Gorchymyn gofal neu orchymyn goruchwyllo	Blwyddyn neu nes daw'r gorchymyn i ben (pa bynnag gyfnod yw'r hiraf)
Gorchymyn Canolfan Fynychu	Blwyddyn ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben
Gorchymyn Ysbyty (gyda neu heb orchymyn cyfyngu)	5 mlynedd, neu ddwy flynedd a hanner ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben (pa bynnag gyfnod yw'r hiraf)

### **Asesu perthnasedd cofnodion troseddol**

Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd (gyda chofnod troseddol) ar gyfer cyflogaeth, yn dibynnu ar natur y swydd a manylion ac amgylchiadau unrhyw gollfarnau, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth eu sgiliau, eu profiad ac amgylchiadau'r gollfarn a phwyso hyn yn erbyn yr elfen o risg ar gyfer y swydd.

Tra na bydd modd efallai ymgymryd ag asesiad llawn o bob unigolyn, bydd y Cyngor yn sicrhau bod amgylchiadau'r drosedd yn cael eu cymryd i ystyried wrth asesu addasrwydd ymgeisydd gyda chofnod troseddol ar gyfer swydd wag. Ni chaiff yr asesiad ei wneud cyn cynigir swydd.

### **Archwiliadau Datgelu Troseddau**

Yn ychwanegol atoch chi yn gwirfoddoli gwybodaeth, mae holl benodiadau i'r swyddi uchod yn destun archwiliad datgelu troseddau, a phenodir dim ond ar ôl derbyn datgeliad boddhaol. Bydd datgeliad y DBS yn manylu rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion ffurfiol, ynghyd â cholffarnau. Gall gwybodaeth berthnasol arall ar wahân i gollfarnau gael ei datgelu gan yr awdurdodau perthnasol ar eich archwiliad DBS.



Bydd hyn hefyd yn gwirio Rhestr Plant ac Oedolion sy'n Agored i niwed ISA os gofynnir am hynny.

### **Triniaeth Cyn-droseddwy**

Er mwyn sicrhau defnydd cywir o wybodaeth ddatgelu, mae gan y cyngor bolisi ar recriwtio a thrin cyn-droseddwy. Mae copi llawn ar gael gan yr Adran AD, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB.